Y Comisiwn Etholiadol

Cynllunio ar gyfer cam 2 o'r newidiadau i'r Ddeddf Etholiadau

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid
Awst 2023	Diweddarwyd i adlewyrchu'r canllawiau Adolygu Dosbarthiadau Pleidleisio a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Newidiadau i'r trefniadau trosiannol ar gyfer pleidleiswyr presennol sy'n pleidleisio drwy'r post i adlewyrchu'r OS terfynol.
Medi 2023	Diweddarwyd i adlewyrchu cyhoeddiad y canllawiau ar bleidleisio absennol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Cynnwys ystyriaethau ychwanegol mewn perthynas â cheisiadau am bleidlais drwy'r post neu bleidlais drwy ddirprwy a wnaed yn ystod y canfas blynyddol.

Cefndir

Mae'r Ddeddf Etholiadau (y Ddeddf), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022, yn gwneud amrywiaeth o newidiadau a fydd yn effeithio ar weinyddwyr etholiadau, ymgyrchwyr a phleidleiswyr. Mae cam cyntaf y newidiadau, a oedd yn cynnwys cyflwyno'r gofynion o ran ID pleidleiswyr a mesurau newydd i'w gwneud yn haws i bobl anabl bleidleisio eisoes ar waith ac mae ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r darpariaethau hyn.

Dyma ein hail ddogfen ganllaw atodol i'ch helpu i baratoi i roi newidiadau ar waith o dan y Ddeddf. Roedd y gyntaf yn cwmpasu'r cam cyntaf o fesurau a gellir ei gweld yma. Bydd yn dal i fod ar gael i gefnogi'r Swyddogion Canlyniadau a'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol hynny nad ydynt wedi cael etholiad yn eu hardal eto sy'n ddarostyngedig i'r darpariaethau newydd ynglŷn ag ID pleidleiswyr a hygyrchedd.

Disgwylir i'r cam nesaf o newidiadau ddod i rym cyn etholiadau mis Mai 2024 a bydd yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud â phleidleisio absennol, etholwyr tramor, hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth dinasyddion yr UE, ymdrin â phleidleisiau post ac enwau a ddefnyddir yn gyffredin. Bydd y rhain yn gymwys yn y mathau canlynol o etholiad:

- Etholiadau Senedd y DU ym Mhrydain Fawr
- Etholiadau lleol yn Lloegr – gan gynnwys etholiadau maerol
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr

Ceir mesurau newydd hefyd mewn perthynas â dylanwad gormodol ac ymddygiad bygythiol, a fydd yn gymwys ym mhob math o etholiad yng Nghymru a Lloegr ac yn etholiadau Senedd y DU yn yr Alban, a mesurau a fydd yn newid y ffordd y darperir cyfeiriadau ymgeiswyr, a fydd ond yn gymwys yn etholiadau Senedd y DU. Oni nodir fel arall, dylid ystyried bod y cyfeiriadau yn y canllawiau hyn at etholiad llywodraeth leol yn cynnwys refferenda llywodraeth leol a dylid ystyried bod cyfeiriadau at etholiadau Senedd y DU yn cynnwys pob etholiad sy'n defnyddio etholfraint Senedd y DU, fel deisebau adalw.

Mae manylion rhai o'r mesurau hyn heb eu cadarnhau eto. Caiff yr adnodd hwn ei ddiweddaru yn ôl yr angen a byddwn yn nodi pan wneir unrhyw newidiadau drwy'r Bwletin Gweinyddu Etholiadau a chofnod o newidiadau yn y ddogfen hon. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd cam wrth gam mewn perthynas â darparu canllawiau i gwmpasu'r cam nesaf o fesurau, gan ganolbwyntio ar sicrhau eich bod yn cael yr hyn sydd ei angen arnoch cyn gynted â phosibl ac yn y drefn y bydd ei hangen arnoch, gan ystyried yr adeg y caiff y ddeddfwriaeth ei chadarnhau ac y daw yn weithredol ar gyfer y darpariaethau gwahanol.

Mae'r diweddariadau cyntaf i'n canllawiau craidd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, sy'n cwmpasu'r darpariaethau newydd ar bleidleisio absennol, wedi'u cyhoeddi erbyn hyn ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Bydd diweddariadau pellach i'n canllawiau yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd, bydd y rhain yn cynnwys:

- Diweddariadau i'r canllawiau craidd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gefnogi newidiadau i hawliau pleidleisio etholwyr tramor
- Bydd diweddariadau o ganlyniad i fesurau eraill, megis ymdrin â phleidleisiau post a chyfrinachedd, newidiadau i'r gofynion enwau a ddefnyddir yn gyffredin a newidiadau i hawliau ymgeisyddiaeth dinasyddion yr UE, yn cael eu cynnwys yn ein diweddariadau i ganllawiau craidd wrth baratoi ar gyfer etholiadau mis Mai.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r broses Cadarnhau ac Adolygu Cymhwysedd (ECR) ar gyfer dinasyddion yr UE, o ganlyniad i'r newidiadau i hawliau pleidleisio dinasyddion yr UE, erbyn diwedd y flwyddyn hon..

Mae drafft terfynol y canllawiau statudol ar y darpariaethau ynglŷn ag argraffnodau digidol ar gael yma. Cafodd y canllawiau eu gosod gan y Gweinidog ar 13 Gorffennnaf ac unwaith y byddant yn cael eu cymeradwyo gan Senedd y DU, cânt eu cyhoeddi ar ein tudalennau canllawiau. Byddwn yn cadarnhau pan fyddant ar gael drwy'r Bwletin Gweinyddu Etholiadau.

Diben

Nod yr adnodd hwn yw tynnu sylw at yr agweddau ar y newidiadau y gallwch ddechrau eu hystyried a chynllunio ar eu cyfer nawr. Mae'n cwmpasu meysydd y bydd angen i chi eu hystyried er mwyn asesu effaith gyffredinol darpariaethau cam 2, yn enwedig ar staffio, hyfforddiant a chyfathrebu. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwyntiau penodol sy'n ymwneud â'r

mesurau gwahanol y bydd angen i chi eu hystyried cyn y canllawiau llawn ar gyfer pob darpariaeth a gyhoeddir.

Mae'r atodiad ar ddiwedd y canllawiau hyn yn cynnwys crynodeb o'r newidiadau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y cam hwn. Ceir rhagor o wybodaeth am fanylion y polisi a diweddariadau rheolaidd ym mhecyn gwybodaeth y Rhwydwaith Newid Busnes a'r cwestiynau cyffredin a rennir gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

Gallwch danysgrifio i fwletinau'r Rhwydwaith Newid Busnes drwy e-bostio EIPBusinessChange@levellingup.gov.uk.

Er nad oes etholiadau wedi'u trefnu mewn rhai ardaloedd ym mis Mai 2024, gall y canllawiau eich helpu i wneud paratoadau cynnar o hyd fel eich bod yn barod ar gyfer yr etholiadau cyntaf – boed yn rhai wedi'u trefnu ai peidio – pan fydd yr ail gam o ddarpariaethau yn gymwys.

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu llywio mewn ymgynghoriad â'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestru a Refferenda, Llywodraeth y DU, Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban, Cymdeithas Aseswyr yr Alban, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru.

Asesu effaith gyffredinol y darpariaethau

Caiff yr ail gam o newidiadau o dan y Ddeddf Etholiadau eu rhoi ar waith yn ystod 2023 a 2024. Bydd angen i chi asesu effaith gronnol y newidiadau hyn, ynghyd â'r gofynion parhaus sy'n ymwneud ag ID pleidleiswyr a hygyrchedd, a nodi unrhyw risgiau cysylltiedig ar gyfer eich cynllun gwaith ar gyfer y 12 mis nesaf. Bydd angen i chi gynnwys yr amser a'r adnoddau i gyflawni'r holl newidiadau ynghyd â'r broses o ddarparu gwasanaethau etholiadol o ddydd i ddydd.

Dylai hyn gynnwys asesiad o effaith unrhyw etholiadau a drefnwyd yn eich ardal yn 2024, ynghyd â'r ffaith bod yn rhaid cynnal etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Ionawr 2025 neu cyn hynny. Bydd hefyd angen i chi ystyried effaith adolygiad o ffiniau etholaethau Senedd y DU. Rydym wedi darparu gwybodaeth ar wahân ar hyn yn ein canllawiau Adolygu Dosbarthiadau Pleidleisio sydd wedi'u diweddaru.

Mae'r tabl isod yn dangos llinell amser o'r dyddiadau gweithredu arfaethedig ar gyfer y mesurau yng ngham dau:

Darpariaeth	**Dyddiad gweithredu arfaethedig presennol**
Newidiadau i reolau pleidleisio drwy'r post	Deddfwriaeth wedi'i gwneud ac yn dod yn weithredol o fis Hydref 2023
Newidiadau i reolau pleidleisio drwy ddirprwy	Deddfwriaeth wedi'i gwneud ac yn dod yn weithredol o fis Hydref 2023

Ceisiadau am bleidlais absennol ar-lein	Deddfwriaeth wedi'i gwneud ac yn dod yn weithredol o fis Hydref 2023
Newidiadau i ddylanwad gormodol ac achosion o ymddygiad bygythiol	Deddfwriaeth wedi'i gwneud ac yn dod yn weithredol o fis Tachwedd 2023
Argraffnodau digidol	Deddfwriaeth wedi'i gwneud ac yn dod yn weithredol o fis Tachwedd 2023
Newidiadau o ran etholwyr tramor	Deddfwriaeth wedi'i gwneud ac yn dod yn weithredol o fis Ionawr 2024
Newidiadau i gyfeiriadau ymgeiswyr (yn etholiadau Senedd y DU) a newidiadau i enwau a ddefnyddir yn gyffredin	Deddfwriaeth wedi'i gwneud ym mis Tachwedd 2023 ac yn dod yn weithredol o etholiadau mis Mai 2024
Newidiadau i hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth dinasyddion yr UE	Deddfwriaeth wedi'i gwneud ym mis Tachwedd 2023 ac yn dod yn weithredol ar ôl etholiadau mis Mai 2024
Rheolau ymdrin â phleidleisiau post a chyfrinachedd	Deddfwriaeth wedi'i gwneud ym mis Rhagfyr 2023 ac yn dod yn weithredol o etholiadau mis Mai 2024

Bydd rhai o'r mesurau hyn yn cyflwyno gofynion parhaus newydd, fel y cais am bleidlais absennol ar-lein a'r broses o gadarnhau pwy yw pleidleiswyr absennol, ac mae eraill yn ofyniad untro, fel yr adolygiad o gymhwystra dinasyddion cofrestredig yr UE.

Dylech ddefnyddio eich cynllun prosiect a'ch cofrestr risg i nodi a dyrannu eich adnoddau a gweithio allan amserlenni cyflawni a thrin y rhain fel dogfennau byw y bydd angen i chi eu diweddaru wrth i ragor o fanylion am y darpariaethau gael eu rhyddhau. Efallai y bydd adegau prysur pan fydd angen i chi gynllunio'n ofalus i reoli'r llwyth gwaith cynyddol a'r gofynion croes ar eich tîm. Bydd hefyd angen i chi sicrhau bod y goblygiadau a'r effeithiau sy'n deillio o'r newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau corfforaethol ehangach ac wrth reoli risg.

Ceir ystyriaethau penodol i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru a'r Alban o ganlyniad i'r ffaith bod y mesurau ond yn gymwys ar gyfer mathau penodol o etholiadau ac rydym wedi tynnu sylw at y rhain yn y ddogfen.

Camau i'w cymryd…

Mae pethau y gallwch eu gwneud ymlaen llaw i'ch helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno'r mesurau newydd a chynllunio eich adnoddau a'ch amserlenni yn unol â hynny:

- Diweddaru eich cynllun prosiect a'ch cofrestr risg i adlewyrchu effaith unigol a chronnol y darpariaethau newydd ar eich cynllun gwaith presennol a thynnu sylw at unrhyw adegau prysur posibl a risgiau cysylltiedig
- Cydgysylltu â chydweithwyr ym mhob rhan o'ch awdurdod lleol, fel bod cofrestrau risg corfforaethol ehangach, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a chynlluniau prosiect yn ystyried effaith y newidiadau, gan sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol yn cael eu cynnig
- Os byddant ar gael, dylech ddefnyddio adroddiadau a luniwyd gan eich system meddalwedd rheoli etholiadol i nodi'r etholwyr hynny y bydd pob un o'r darpariaethau yn effeithio arnynt

Staffio

Dylech nodi pawb a fydd yn rhan o'r broses o roi'r newidiadau sydd ar ddod ar waith. Mae'n debygol y bydd y rhain yn cynnwys:

- Staff craidd/dros dro y gwasanaethau etholiadol
- Staff canfasio
- Staff rheng flaen canolfannau galwadau
- Staff derbynfa mewn adeiladau allweddol yn yr awdurdod lleol
- Cydweithwyr cyfathrebu
- Staff gorsafoedd pleidleisio

Dylech ystyried pryd y gall fod angen staff craidd neu staff dros dro ychwanegol arnoch i helpu gydag ymholiadau ac i sicrhau eich bod yn barod i brosesu ceisiadau mewn fformat ar-lein a fformat papur i gofrestru i bleidleisio, ar gyfer pleidlais absennol ac ar gyfer Tystysgrifau Awdurdod Pleidleiswyr a Dogfennau Etholwyr Dienw.

Bydd hyn yn arbennig o bwysig lle y gall sawl proses gyrraedd ei hanterth ar yr un pryd er enghraifft, ceisiadau am bleidlais bost a cheisiadau cofrestru etholwyr tramor yn y cyfnod cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Hyfforddiant

Dylai eich cynllun hyfforddiant nodi pryd y bydd angen i staff gwahanol gael eu hyfforddi a sut y byddwch yn eu cefnogi yn y dyfodol drwy ddiweddaru cwestiynau cyffredin, cyfarwyddiadau prosesu a nodiadau hyfforddiant.

Bydd angen i chi ddiweddaru eich cynlluniau hyfforddiant i gwmpasu:

- Effaith y newidiadau deddfwriaethol ar y broses o gyflawni prosesau o ddydd i ddydd i'ch tîm craidd

- Hyfforddiant i'ch tîm craidd, staff sy'n delio â'r cyhoedd a staff cyfathrebu ar reoli ymholiadau sy'n ymwneud â'r mesurau newydd gan aelodau o'r cyhoedd, ymgeiswyr ac asiantiaid, pleidiau gwleidyddol lleol a'r cyfryngau
- Hyfforddiant ymarferol i staff ar brosesu ceisiadau newydd ac unrhyw newidiadau cysylltiedig i systemau meddalwedd, gan gynnwys sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r Porth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar gyfer prosesau newydd
- Hyfforddiant ymarferol ar drin pecynnau pleidleisio drwy'r post sydd wedi'u cwblhau mewn swyddfeydd cyngor a gorsafoedd pleidleisio, gan gynnwys cwmpasu ffurflenni cysylltiedig

Cyfathrebu

Dylech ddechrau meddwl am y negeseuon ychwanegol y bydd angen i chi eu cynnwys yn eich gwaith parhaus i sicrhau y gall pawb sy'n gymwys gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan mewn etholiadau. Er mwyn dechrau'r gwaith hwn dylech gynllunio ar gyfer y canlynol:

- Cydgysylltu'n gynnar ag aelodau o'ch tîm cyfathrebu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau ac i gynllunio eich strategaeth gyfathrebu
- Pa wybodaeth y bydd angen i chi ei chynnwys yn eich negeseuon i sicrhau bod etholwyr yn deall y newidiadau a gyflwynir gan y darpariaethau newydd; yng Nghymru a'r Alban, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i reoli negeseuon lle bydd gwahaniaethau rhwng y darpariaethau newydd a'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i etholiadau datganoledig
- Unrhyw ddiweddariadau y bydd angen i chi eu gwneud i'ch gwefan wrth i'r mesurau gwahanol ddod i rym er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn darparu unrhyw ddolenni perthnasol ar gyfer etholwyr er mwyn iddynt gael mwy o wybodaeth neu wneud ceisiadau ar-lein
- Sut y byddwch yn defnyddio'r sianeli gwahanol sydd ar gael i chi, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, dros e-bost, dros y ffôn a thrwy gov.notify i dynnu sylw at unrhyw negeseuon allweddol
- Sut y gallwch gynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu i gyrraedd etholwyr nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd, neu sydd angen cael gwybodaeth mewn fformatau gwahanol, gan ddefnyddio'ch cysylltiadau â grwpiau cymunedol, elusennau a chartrefi gofal lleol
- Amseriad eich gohebiaeth, gan ystyried y llinell amser ar gyfer rhoi'r darpariaethau newydd ar waith yn gyffredinol, a'r ffordd y bydd hyn yn rhyngweithio â'r canfasiad blynyddol ac amserlenni unrhyw etholiadau yn eich ardal. Er enghraifft, dylech ystyried pryd y byddwch yn anfon ceisiadau am bleidleisiau post a phleidleisiau drwy ddirprwy i'r rhai sy'n gofyn am un yn ystod y canfasiad er mwyn rheoli'r risg bod etholwyr yn dychwelyd ffurflenni cais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy nad ydynt yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol oherwydd y gofynion dilysu hunaniaeth newydd ar ôl iddynt ddod i rym ar 31 Hydref.
- Ymgorffori newidiadau yn eich sesiynau briffio a'ch canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiadau

Byddwn yn eich hysbysu am yr adnoddau y byddwn yn eu darparu i gefnogi cysylltiadau lleol drwy'r Bwletin Gweinyddu Etholiadau a Roll Call.

Yn ogystal â'r ystyriaethau cyffredinol hyn a fydd yn llywio eich gwaith cynllunio, mae pethau penodol y gallwch eu gwneud i baratoi ar gyfer gweithredu'r darpariaethau unigol ac mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adrannau ar bob un o'r darpariaethau isod.

Pleidleisio absennol

Ceir gwybodaeth bolisi gefndirol am y darpariaethau pleidleisio absennol yn yr atodiad.

Ceisiadau am bleidlais absennol ar-lein

Dylech ystyried sut y bydd proses gwneud cais ar-lein ar gyfer pleidleisiau absennol ar gyfer pob math o etholiad yn Lloegr, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac etholiadau Senedd y DU yng Nghymru, ac etholiadau Senedd y DU yn yr Alban yn effeithio ar lwythi gwaith a chyfnodau prysur ar gyfer prosesu yn ystod etholiadau. Er y gall y gwaith o brosesu ceisiadau ar-lein fod yn gyflymach o bosibl, efallai y bydd y gallu i wneud cais ar-lein yn arwain at gyfnodau prysur penodol – er enghraifft yn ystod dadleuon arweinwyr pleidiau ar y teledu neu alwadau uniongyrchol eraill i etholwyr yn ystod ymgyrchoedd etholiadol – fel y gwelsom ar ôl cyflwyno'r gallu i gofrestru ar-lein. Felly, dylech sicrhau eich bod yn cynnwys adnoddau i gefnogi cyfnodau prysur a ragwelir, gan ystyried y bydd angen i chi brosesu ffurflenni cais papur yn ogystal â cheisiadau ar-lein.

Nodi'r trefniadau dilysu ar gyfer ceisiadau am bleidlais absennol

Disgwylir y bydd y gofyniad i gadarnhau pwy yw etholwyr a gynhelir wrth wneud ceisiadau pleidleisio absennol ar gyfer y mathau o etholiad fel y'u rhestrir uchod, yn dod i rym ar 31 Hydref. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw geisiadau o'r fath a dderbynnir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw gynnwys yr wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol ar gyfer dilysu hunaniaeth er mwyn i chi allu eu prosesu. Felly, dylech ystyried:

- pryd i roi'r gorau i anfon unrhyw ffurflenni cais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy yn y steil cyn cychwyn cyn i'r darpariaethau newydd ddechrau er mwyn cyfyngu ar ddryswch posibl i etholwyr. Fel rhan o hyn, bydd angen i chi ystyried unrhyw isetholiadau sy'n cael eu cynnal yn eich ardal a chymryd camau i sicrhau bod y rhai sydd â hawl i bleidleisio yn yr etholiadau hyn yn dal i allu gwneud cais i bleidleisio yn eu dewis ffordd.

- gan gynnwys dyddiad cau o 30 Hydref ar unrhyw lythyrau sy'n cyd-fynd â ffurflenni cais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy perthnasol yr ydych yn eu hanfon cyn bod y darpariaethau newydd o ran cais am bleidlais absennol yn dod i rym, gan egluro na fydd modd prosesu unrhyw ffurflenni a dderbynnir ar ôl y pwynt hwn oni bai fod gwybodaeth ychwanegol yn cael; ei darparu.

- defnyddio cyfeiriadau e-bost etholwyr i anfon dolenni i'r porth ar-lein ar gyfer ceisiadau am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy perthnasol ar ôl i'r darpariaethau ddechrau.

Ar ol iddo ddod i rym, os na all etholwyr ddarparu rhif Yswiriant Gwladol, neu pan na ellir cadarnhau pwy ydynt drwy ddefnyddio cofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau, bydd angen iddynt ddarparu tystiolaeth ddogfennol briodol drwy'r broses eithriadau. Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer defnyddio proses paru data lleol i ddilysu ceisiadau pleidleisio absennol sy'n methu proses wirio'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Gallai unrhyw wybodaeth sydd gennych o'ch profiad o reoli ceisiadau eraill y mae angen eu cadarnhau (fel ceisiadau i gofrestru neu geisiadau am Dystysgrifau Awdurdod Pleidleiswyr) ar y ganran fras sy'n methu'r broses gadarnhau a pha mor hir ar gyfartaledd y mae'r broses ar

gyfer eithriadau a/neu'r broses ardystio'n ei chymryd fel arfer, helpu i lywio eich cynlluniau adnoddau.

Gallai'r broses ychwanegol o gadarnhau pwy yw pleidleiswyr arwain at oedi cyn y gellir penderfynu ar rai ceisiadau felly bydd angen i chi ystyried unrhyw effaith ar eich amserlen argraffu arferol ac unrhyw gynlluniau wrth gefn eraill y gall fod eu hangen.

Anfon pleidleisiau post

Os bydd etholwr sy'n gwneud cais am bleidlais bost newydd yn agos at y dyddiad cau cyn etholiad yn methu'r broses gadarnhau, gellir penderfynu ar ei gais drwy ddefnyddio'r broses eithriadau neu'r broses ardystio hyd at a chan gynnwys y diwrnod pleidleisio. Er mai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n gyfrifol am brosesu ceisiadau, y Swyddog Canlyniadau sy'n gyfrifol am anfon pecynnau drwy'r post.

Bydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau gynllunio sut y byddant yn cydgysylltu'r broses o benderfynu ac o anfon pecynnau drwy'r post. Bydd sicrhau llinellau cyfathrebu clir yn arbennig o bwysig ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholaethau trawsffiniol lle byddwch yn ildio neu'n derbyn etholwyr o awdurdodau lleol eraill. Mae'n debygol y bydd nifer yr etholaethau trawsffiniol yn cynyddu pan ddaw'r ffiniau etholaethol newydd i rym.

Fel rhan o'r gwaith cynllunio hwn, dylech wneud y canlynol:

- Gweithio gyda'ch gilydd i benderfynu sut y byddwch yn penderfynu ar geisiadau am bleidlais bost cyn etholiad a rheoli'r goblygiadau ymarferol sy'n gysylltiedig ag anfon pleidleisiau post hyd at ddiwedd y cyfnod pleidleisio, boed hynny drwy gyflenwr neu'n fewnol. Er y dylech sicrhau bod cymaint â phosibl o gyfle i'r broses benderfynu gael ei chwblhau er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i bleidleisio gan ddefnyddio eu dull dewisol, bydd hefyd angen i chi nodi sut y byddwch yn rheoli'r broses o ddosbarthu a chasglu pleidleisiau post yn lleol ar gyfer yr etholwyr hynny y penderfynir ar eu ceisiadau am bleidleisiau drwy'r post yn ystod yr wythnos cyn y diwrnod pleidleisio.
- Cynllunio eich strategaeth gyfathrebu gyffredinol fel bod etholwyr yn ymwybodol o'r dyddiadau cau ar gyfer pleidleisio absennol a'r gofyniad newydd i gadarnhau pwy yw pleidleiswyr. Ar gyfer yr etholwyr hynny sy'n gwneud cais yn agos at y dyddiad cau, efallai y bydd angen i chi gael negeseuon penodol i reoli disgwyliadau o ystyried y gall y gwaith o brosesu ceisiadau am bleidleisiau absennol gymryd mwy o amser. Gallai hyn gynnwys negeseuon i gefnogi etholwyr i ystyried a all pleidlais dros dro drwy ddirprwy fod yn fwy addas ar gyfer eu hamgylchiadau os oes risg na fyddant yn derbyn eu cais am bleidlais bost mewn da bryd i'w defnyddio, er enghraifft, os byddant yn mynd i ffwrdd ar wyliau.
- Cynllunio sut y byddwch yn hysbysu etholwyr am eich penderfyniadau ar geisiadau am bleidlais absennol fel eu bod yn gwybod sut y gallant bleidleisio yn yr etholiad sydd ar ddod ac mewn etholiadau yn y dyfodol.
- Gwnewch gynlluniau i gadw cofnod o nifer y ceisiadau a ddaw i law yn y cyfnod cyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost, nad ydynt wedi'u paru â chofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau ar y Porth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol fel eich bod wedi paratoi digon o becynnau dros ben.
- Sicrhewch eich bod yn archebu mwy o becynnau post gwag nag arfer i sicrhau y gellir dosbarthu pecynnau ar fyr rybudd yn y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio.

- Ystyriwch sut y byddwch yn rheoli'r cynnydd posibl yn nifer y pecynnau pleidleisio drwy'r post a gaiff eu dychwelyd â llaw gan etholwyr o ganlyniad i'r gofynion newydd, yn enwedig o ystyried y darpariaethau newydd ar gyfer ymdrin â phleidleisiau post a chyfrinachedd.

Y broses o ail-wneud cais am bleidlais bost a'r trefniadau trosiannol ar gyfer pleidleiswyr post a dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post

Bydd gofyniad newydd ar etholwyr i ail-wneud cais bob tair blynedd os byddant am barhau i bleidleisio drwy'r post, ym mhob math o etholiad yn Lloegr, etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, ac etholiadau Senedd y DU yn yr Alban. Bydd hyn yn disodli'r gofyniad presennol i gyflwyno llofnod newydd bob pum mlynedd ar gyfer yr etholiadau hyn.

Mae'r broses o adnewyddu dynodwyr personol ar gyfer pleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy mewn etholiadau datganoledig yr un fath o hyd a bydd yn parhau i weithredu ar gylch adnewyddu pum mlynedd, heblaw ar gyfer etholwyr tramor lle bydd y broses o adnewyddu llofnod dirprwy yn digwydd bob tair blynedd, yn unol â'r broses o adnewyddu cofrestriad tramor.

Bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol sefydlu cynlluniau ar gyfer rheoli'r prosesau newydd a'r prosesau presennol fel y bo angen.

Bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ysgrifennu at bob pleidleisiwr post a phleidleisiwr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau perthnasol i nodi'r dyddiad y bydd ei drefniadau pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy yn dod i ben. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd cyn i hawliad y pleidleisiwr ddod i ben ar 31 Ionawr 2026. Mae'n rhaid i'r hysbysiad egluro hefyd sut i wneud cais newydd os ydynt am barhau i bleidleisio drwy'r post. Bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gallu pennu'r manylion ynghylch sut a phryd y byddant yn ysgrifennu at y pleidleiswyr hyn. Ceir gwybodaeth bellach yn ein canllawiau craidd ar bleidleisio absennol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Trefniadau trosiannol ar gyfer pleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy yn barhaol a newidiadau i gyfyngiadau ar bleidleisio drwy ddirprwy

O dan y trefniadau trosiannol ar gyfer y rheolau newydd ynglŷn â phleidleisio drwy ddirprwy, bydd angen i chi ysgrifennu at bob etholwr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy yn barhaol ar gyfer pob math o etholiad yn Lloegr, etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, ac etholiadau Senedd y DU yn yr Alban, i'w hysbysu y bydd angen ail-wneud cais am ei bleidlais drwy ddirprwy erbyn 31 Ionawr 2024.

Dylech nodi nifer y pleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy yn barhaol a gofrestrwyd gennych ac ystyried faint o adnoddau ychwanegol y gall fod eu hangen, os o gwbl, i reoli nifer y pleidleiswyr y bydd angen ysgrifennu atynt. Dylech sicrhau'r canlynol:

- Na ellir gwneud ceisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn barhaol ar-lein, felly bydd hon yn broses bapur

- Bydd angen i'r ceisiadau newydd fynd drwy'r broses ddilysu newydd ac os byddant yn methu'r broses dilysu ID, bydd angen mynd drwy'r broses eithriadau a'r broses ardystio o bosibl

- Mae'n debygol y bydd cynnydd yn nifer yr ymholiadau gan etholwyr ynghylch yr angen i wneud cais newydd a darparu eu rhif Yswiriant Gwladol

Dylech fanteisio ar y cyfle hwn i dynnu sylw etholwyr at y newid i uchafswm nifer y bobl y gall dirprwy weithredu ar eu rhan er mwyn eu helpu i newid eu trefniadau ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy mewn da bryd os bydd angen. Bydd hefyd angen i chi gael prosesau ar waith i ymateb i adroddiadau o achosion o dorri'r rheolau - gan gynnwys, trefniadau i roi gwybod i'r heddlu am y mater - gan sicrhau eich bod yn cadw llwybr archwilio clir.

Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am y trefniadau trosiannol hyn yn ein diweddariadau i'r canllawiau craidd ar bleidleisio absennol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Effaith y newidiadau i bleidleisio absennol yng Nghymru a'r Alban

Bydd angen i chi gynllunio ar gyfer sut y byddwch yn rheoli'r gofynion gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o etholiadau.

- Cynllunio ar gyfer effaith prosesu ceisiadau mewn systemau gwahanol, gan ddefnyddio EROP ar gyfer ceisiadau ar gyfer etholiad a gedwir yn ôl a'ch System Rheoli Etholiad ar gyfer etholiadau datganoledig, ar lwyth gwaith eich tîm.
- Cynllunio sut y byddwch yn trin etholwyr sydd â phleidlais absennol ar gyfer pob etholiad ar hyn o bryd. Bydd angen rhannu cofnod yr etholwyr ar gyfer y mathau gwahanol o etholiadau a gallai olygu eich bod yn rheoli prosesau ar wahân
- Sicrhau bod eich tîm gwasanaethau etholiadol craidd a'ch staff rheng flaen sy'n ymdrin ag ymholiadau yn deall y gofynion ar gyfer y ceisiadau am bleidleisiau absennol yn dibynnu ar y math o etholiad. Dylent fod yn barod i helpu etholwyr i gwblhau rhai ceisiadau ar-lein ac i esbonio'r gwahaniaethau rhwng y ddau fath o gais
- Ystyried y ffordd orau o gyfleu rhai o'r negeseuon mwyaf cymhleth i etholwyr. Er enghraifft, ar gyfer y newidiadau i gyfyngiadau ar bleidleisio drwy ddirprwy, sut y gallwch esbonio'r gwahaniaethau rhwng y rheolau ar gyfer etholiadau gwahanol a rhoi cyfarwyddiadau clir ynghylch beth y mae angen i etholwyr ei wneud i barhau i bleidleisio drwy ddirprwy yn y gwahanol fathau o etholiadau
- Cydgysylltu â'ch tîm cyfathrebu i gynllunio eich strategaeth ymgysylltu, a nodi pa sianeli cyfathrebu y byddwch yn eu defnyddio i hysbysu pleidleiswyr absennol am y newidiadau.
- Ystyried sut y byddwch yn rheoli'r negeseuon yn ystod canfasiad eleni, oherwydd bydd yn mynd rhagddo pan ddaw'r newidiadau'n weithredol. Dim ond i adlewyrchu'r darpariaethau newydd cyn canfasiad 2024 y caiff y ffurflenni canfasio eu hunain eu diweddaru. Felly, os bydd rhywun yn gwneud cais am bleidlais absennol ar ffurflen ganfasio ar ôl cychwyn y darpariaethau newydd, dylech ystyried sut y byddwch yn cyfleu'r gofynion newydd ar gyfer yr etholiadau gwahanol wrth ohebu ynghylch cwblhau'r cais/ceisiadau.
- Ar ôl cychwyn y darpariaethau hyn, efallai y byddwch am gynnwys cam gweithredu newydd yn unrhyw gynlluniau prosiect etholiad yn y dyfodol, i nodi etholwyr sydd â phleidlais absennol barhaol ar waith ar gyfer un math o etholiad, na fyddent yn deall o bosibl y bydd angen iddynt wneud cais ar wahân i sicrhau bod ganddynt bleidlais absennol ar waith ar gyfer y llall. Dylai eich darparwr System Rheoli Etholiad allu eich helpu i nodi'r adroddiad mwyaf priodol er mwyn adalw'r wybodaeth hon o'ch system.

Etholwyr tramor

Ceir gwybodaeth am y darpariaethau i etholwyr tramor yn yr atodiad.

Gan na fydd cyfyngiad 15 mlynedd ar gymhwystra dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor i gofrestru i bleidleisio mwyach, dylech sicrhau eich bod yn dechrau cynnal cofrestrau hanesyddol a rhestrau o etholwyr tramor y tu hwnt i 15 mlynedd ac yn ystyried sut y gallech gael gafael ar ragor o gofrestrau hanesyddol er mwyn cadarnhau bod ymgeisydd yn arfer bod wedi'i gofrestru yn eich ardal awdurdod lleol.

Efallai y bydd yn rhaid i chi edrych ar opsiynau storio newydd ar gyfer y cofrestrau hyn, gan gynnwys digideiddio'r wybodaeth os yw'n bosibl ac ystyried unrhyw adnoddau ychwanegol y gall fod eu hangen arnoch i gyflawni hyn. Bydd angen i chi ystyried pa ddata eraill, os o gwbl, y gall fod ar gael i chi i gadarnhau a yw etholwyr tramor yn gymwys, er enghraifft, data ar y dreth gyngor neu dderbyniadau i ysgolion. Bydd angen i chi drefnu cytundebau rhannu data priodol i'ch galluogi i gael gafael ar hyn.

Ymwybyddiaeth y cyhoedd

Byddwn yn cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth o wybodaeth i'r cyhoedd er mwyn hysbysu darpar etholwyr tramor o'r newid i hawliau cofrestru. Rydym wrthi'n gweithio ar y ffordd orau o gyrraedd cynulleidfa mor amrywiol ac ar gadarnhau'r llinell amser ar gyfer ein gweithgareddau. Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi pan fydd ar gael drwy Roll Call a'r Bwletin Gweinyddu Etholiadau.

Dylech gysylltu â thîm cyfathrebu eich awdurdod lleol ynghylch pa sianeli allai fod fwyaf priodol i dynnu sylw at y negeseuon hyn pan fyddant ar gael, er enghraifft, drwy rannu adnoddau drwy'r cyfryngau cymdeithasol a rhannu negeseuon ar wefan awdurdodau lleol.

Ymdrin â phleidleisiau post a chyfrinachedd

Ceir manylion ar y broses o ymdrin â phleidleisiau post a darpariaethau cyfrinachedd yn yr atodiad.

Mae'r darpariaethau newydd yn cyflwyno cyfyngiadau ar y ffordd y mae ymgyrchwyr gwleidyddol yn ymdrin â phleidleisiau post ac yn cyfyngu ar y nifer y gall unigolyn eu cyflwyno mewn gorsaf bleidleisio neu swyddfa cyngor.

Yn ogystal â diweddaru eich hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio ar y broses o reoli'r gofyniad newydd hwn mewn gorsafoedd pleidleisio, bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn ymdrin â phleidleisiau post a gaiff eu cyflwyno i swyddfeydd cyngor neu eu postio i flychau llythyrau swyddfeydd cyngor, gan gynnwys yn hwyr ar y diwrnod pleidleisio o bosibl.

Bydd angen i chi ystyried pa adeiladau cyngor y gallai'r newid hwn effeithio arnynt, pa brosesau y bydd gennych ar waith i sicrhau na all neb gyflwyno pecyn post heb gwblhau'r ffurflen briodol, a sut y byddwch yn sicrhau bod trywydd archwilio clir.

Ystyriaethau ôl-etholiad

Bydd gofyniad i anfon llythyrau gwrthod pan fydd rhywun yn cyflwyno pleidleisiau post nad ydynt yn cyd-fynd â'r rheolau newydd.

Bydd angen i chi ystyried yr effaith ar adnoddau o ganlyniad i'r gofyniad hwn – a fydd angen i chi gael staff ychwanegol i gyflawni'r broses a delio ag ymholiadau?

Hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth dinasyddion yr UE

Ceir gwybodaeth am ddarpariaethau ar gyfer hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth dinasyddion yr UE, gan gynnwys y meini prawf cymhwystra ar gyfer dinasyddion yr UE, yn yr atodiad. Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol yn yr Alban.

Mae dwy brif ran i'r broses o roi'r darpariaethau hyn ar waith: newidiadau i'r broses o wneud cais mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau o dan y meini prawf cymhwystra newydd, a fydd yn barhaus, ac adolygiad o ddinasyddion yr UE sydd eisoes wedi'u cofrestru i gadarnhau a ydynt yn gymwys, a fydd yn broses untro.

Fel rhan o'r olaf, bydd angen i chi nodi dinasyddion yr UE y dylid adolygu eu cymhwystra fel rhan o'r broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra. Bydd hefyd angen i chi gynllunio i ysgrifennu at etholwyr y nodir gennych eu bod yn ‘ddinasyddion cymwys yr UE’ (h.y. dinasyddion o Lwcsembwrg, Gwlad Pwyl, Portiwgal a Sbaen) a ‘dinasyddion yr UE â hawliau a ddargedwir’ (h.y. dinasyddion o wledydd eraill yr UE a oedd yn breswylwyr cyfreithlon cyn 31/12/2020), i'w hysbysu nad oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau a'u bod, yn Lloegr, yn gymwys i barhau i fod wedi'u cofrestru ac, yng Nghymru, eu bod yn parhau i fod yn gymwys i bleidleisio yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Amseru'r broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra

Rhaid i'r broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra gael ei chwblhau rhwng 7 Mai 2024 a 31 Ionawr 2025. Eich lle chi fydd penderfynu ar yr adeg orau i gwblhau'r broses hon o fewn y cyfnod hwn. Bydd angen i chi ystyried a ddylid gwneud hyn cyn, yn ystod neu ar ôl y canfasiad blynyddol yn 2024.

Bydd eich penderfyniad ar yr adeg fwyaf priodol i gynnal y broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra yn dibynnu ar eich amgylchiadau lleol, gan gynnwys at faint o etholwyr y bydd angen ysgrifennu yn eich ardal ac effaith eich gwaith ôl-etholiad yn dilyn unrhyw etholiadau arfaethedig ym mis Mai 2024.

Wrth wneud y penderfyniad ynghylch pryd y byddwch yn cynnal y broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra, dylech ystyried y canlynol:

- Canlyniadau eich adolygiad seiliedig ar ddata a fydd yn eich galluogi i benderfynu:
    - sawl etholwr sy'n gymwys i barhau i fod wedi'u cofrestru
    - sawl etholwr y bydd angen i chi gysylltu â nhw drwy ohebiaeth i gadarnhau eu bod yn gymwys
- Y gofyniad y mae'n rhaid i chi ysgrifennu at bob dinesydd yr UE ar eich cofrestr i gadarnhau canlyniad yr adolygiad (hyd yn os bydd yn gymwys o hyd)
- Pan fydd angen adolygiad, y bydd angen tri chontract ysgrifenedig ar gyfer y cylch atgoffa llawn, ac ymgais i gysylltu'n bersonol (a all fod drwy guro ar y drws neu alwad ffôn)
- Nifer y staff sydd ar gael i chi, yn eich tîm craidd a staff dros dro
- Gallu eich argraffwyr i lunio'r ffurflenni a'r deunyddiau ychwanegol sydd eu hangen

Os byddwch yn penderfynu cynnal y broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra cyn i chi ddechrau'r canfasiad blynyddol, bydd hefyd angen i chi ystyried:

- Goblygiadau staffio – bydd angen i chi ystyried argaeledd staff ar ôl yr etholiad a chyn y canfasiad er enghraifft, a fydd gennych ddigon o staff ar gael i reoli'r broses, ateb ymholiadau a chysylltu'n bersonol pan fydd angen?
- Sut y byddwch yn sicrhau bod gennych negeseuon clir i ddinasyddion yr UE, gan ystyried y bydd eu haelwyd hefyd yn cael gohebiaeth canfasiad yn fuan ar ôl cael llythyr/e-bost am y broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra

Os byddwch yn penderfynu cynnal y broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra yn ystod cyfnod y canfasiad, bydd angen i chi ystyried:

- Yr effaith ar amser staff ac adnoddau os byddwch yn prosesu ffurflenni canfasiad ar yr un pryd ag ymatebion i'r broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra
- P'un a fyddwch yn defnyddio canfaswyr i gwblhau rhan cyswllt personol y broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra pan fyddant yn curo ar ddrysau ar gyfer y canfasiad
- Pa gamau lliniaru y byddwch yn eu cymryd i ymdrin ag ymholiadau/dryswch posibl gan etholwyr sy'n cael gohebiaeth ganfasio yr un pryd ag y cysylltir â nhw fel rhan o'r broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra

Os byddwch yn penderfynu cynnal y broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra ar ôl y canfasiad, bydd angen i chi ystyried y canlynol:

- Amserlenni –
    - a fydd gennych ddigon o amser i gwblhau'r tri cham cysylltu posibl fel sy'n briodol cyn 31 Ionawr 2025
    - a fyddwch yn defnyddio eich gallu i ohirio cyhoeddi'r gofrestr tan 1 Chwefror 2025, ac os felly, pa effaith y gall hynny ei chael ar eich cynlluniau cyn etholiadau mis Mai 2025
- Unrhyw effaith y gallai cynnal y broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra dros gyfnod y Nadolig ei chael ar argaeledd staff ac, os byddwch yn cynnal y cam cyswllt personol ar yr adeg hon, i ba raddau y byddwch yn llwyddo i gysylltu ag etholwyr
- Teilwra'r ffordd rydych yn cyfathrebu â dinasyddion o'r UE er mwyn sicrhau eu bod yn deall bod angen ymateb i ohebiaeth ynghylch y broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra hyd yn oed os byddant newydd gwblhau ymateb i ganfasiad

Ystyriaethau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru

O ystyried mai dim ond adolygiad o'u hawl i bleidleisio yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a gaiff dinasyddion yr UE yng Nghymru, bydd angen i chi ystyried yn ofalus y negeseuon y byddwch yn eu defnyddio wrth gysylltu â dinasyddion yr UE fel rhan o'r broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra.

Newidiadau i hawliau ymgeisyddiaeth

Daw'r newidiadau i hawliau ymgeisyddiaeth dinasyddion yr UE i rym o 7 Mai 2024. Bydd angen i ddinasyddion yr UE sy'n sefyll fel ymgeiswyr neu a gaiff eu hethol ar ôl y dyddiad hwn sicrhau eu bod wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu i aros ynddi, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arnynt. Bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn hysbysu ymgeiswyr ac asiantiaid, ac aelodau presennol, am y newid hwn.

Atodiad – Manylion ychwanegol am y darpariaethau newydd

Isod ceir trosolwg o'r darpariaethau sy'n dod i rym yn ystod 2023 a 2024. Ceir rhagor o fanylion am y darpariaethau unigol ym mhecyn gwybodaeth y Rhwydwaith Newid Busnes a'r cwestiynau cyffredin.

Pleidleisio absennol

Daw'r darpariaethau canlynol i rym ym mis Hydref 2023 a byddant yn gymwys ar gyfer pob math o etholiad yn Lloegr, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac etholiadau Senedd y DU yng Nghymru, ac etholiadau Senedd y DU yn yr Alban:

- Caiff etholwyr yr opsiwn o wneud cais am bleidlais bost a rhai mathau o bleidlais drwy ddirprwy gan ddefnyddio porth ar-lein newydd
- Caiff gofynion newydd i gadarnhau pwy yw pleidleiswyr eu cyflwyno ar gyfer pob cais am bleidlais absennol, p'un a gânt eu gwneud ar-lein neu ar bapur, heblaw am bleidleisiau drwy ddirprwy mewn argyfwng:
    - Bydd pob cais yn mynd drwy wiriad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn debyg i'r broses ar gyfer ceisiadau i gofrestru i bleidleisio
    - Ar gyfer ymgeiswyr na ellir cadarnhau pwy ydynt drwy wiriad yr Adran Gwaith a Phensiynau, bydd angen dilyn proses eithriadau, neu, os na wneir hynny, proses ardystio
- Bydd trefniadau pleidlais bost yn gymwys am hyd at dair blynedd.
- Bydd cyfanswm nifer yr etholwyr y gall person weithredu fel dirprwy ar eu rhan wedi'i gyfyngu i bedwar, ac ni all mwy na dau ohonynt fod yn etholwyr domestig (h.y. etholwr nad yw'n etholwr tramor nac yn bleidleisiwr o'r lluoedd arfog)
- Bydd yn ofynnol i bob etholwr sydd â phleidlais drwy ddirprwy barhaol ail-wneud cais am ei bleidlais drwy ddirprwy cyn 31 Ionawr 2024
- Fodd bynnag, mae'r broses o adnewyddu dynodwyr personol ar gyfer pleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy a phleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy'r post yr un fath a bydd yn parhau i weithredu ar gylch adnewyddu pum mlynedd.

Mae'r ddeddfwriaeth eilaidd, sy'n darparu ar gyfer y newidiadau hyn, wedi'i gosod erbyn hyn a gellir dod o hyd iddi yma.

Etholwyr tramor

Disgwylir i'r darpariaethau canlynol ddod i rym ym mis Ionawr 2024:

- Cael gwared ar y terfyn o 15 mlynedd ar hawl alltudion i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU. Rhoddir etholfraint i bob dinesydd Prydeinig tramor a oedd yn arfer bod wedi'i gofrestru neu'n byw yn y DU

- Caiff y cyfnod cofrestru ei ymestyn i hyd at dair blynedd a phennir dyddiad penodol sef 1 Tachwedd i geisiadau adnewyddu, yn unol â'r darpariaethau pleidleisio absennol a ddiweddarwyd ar gyfer etholwyr tramor
- Caiff etholwyr tramor yr opsiwn i ail-wneud cais am bleidlais bost neu i adnewyddu eu pleidlais drwy ddirprwy, a gaiff eu 'clymu' wedyn i'r cyfnod tair blynedd newydd o gofrestru (oni chaiff cyfnod byrrach ar gyfer y bleidlais absennol ei nodi gan yr etholwr ac felly ei fod yn dod i ben cyn hynny)

Ymdrin â phleidleisiau post a chyfrinachedd

Bydd y darpariaethau hyn yn weithredol ar gyfer etholiadau a gynhelir o fis Mai 2024:

- Bydd cyfyngiadau newydd ar ymdrin â phleidleisiau post, gan gynnwys:
    - gwaharddiad ar ymgyrchwyr gwleidyddol yn ymdrin â phleidleisiau post, ac eithrio eu pleidlais bost eu hunain, pleidlais bost aelod agos o'r teulu neu bleidlais bost rhywun y maent yn darparu gofal rheolaidd iddo
    - cyfyngiadau ar nifer y pleidleisiau post y gall person eu cyflwyno mewn gorsafoedd pleidleisio a swyddfeydd cyngor
    - bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyflwyno pleidleisiau post mewn gorsafoedd pleidleisio neu mewn swyddfeydd cyngor lenwi ffurflen
- Caiff gofynion cyfrinachedd eu hymestyn i bleidleisiau post a phleidleisiau drwy ddirprwy

Hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth dinasyddion yr UE

Daw'r darpariaethau hyn i rym ym mis Tachwedd 2023 ond dim ond ar ôl yr etholiadau arfaethedig ym mis Mai 2024 y byddant yn weithredol.

Yn Lloegr, caiff hawl gyffredinol dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd i gofrestru, pleidleisio a sefyll mewn etholiadau yn y DU sy'n defnyddio etholfraint etholiadau lleol ei dileu. Yng Nghymru, bydd hyn yn wir am etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ond nid etholiadau llywodraeth leol.

Bydd dau grŵp o ddinasyddion yr UE yn cadw eu hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth:

- 'Dinasyddion yr UE cymwys' – h.y. dinasyddion o wledydd yr UE sydd â chytundeb dwyochrog â Llywodraeth y DU, sef Lwcsembwrg, Gwlad Pwyl, Portiwgal a Sbaen ar hyn o bryd – cyfeirir at y gwledydd hyn fel yr UE4 weithiau
- Dinasyddion yr UE o unrhyw wlad arall yn yr UE a oedd eisoes yn breswylwyr cyfreithlon yn y DU cyn 31/12/2020 – cyfeirir at y gwledydd hyn fel arfer fel yr UE20

Ni fydd y newid hwn yn effeithio ar hawliau dinasyddion o Iwerddon, Malta na Chyprus.

- Bydd angen i chi nodi dinasyddion yr UE y dylai eu cymhwystra gael ei adolygu fel rhan o'r broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra.
- Bydd angen i chi ysgrifennu at etholwyr y nodwyd gennych eu bod yn 'ddinasyddion yr UE cymwys' ac yn 'ddinasyddion yr UE â hawliau a ddargedwir', i'w hysbysu eu bod yn gymwys i barhau i fod wedi'u cofrestru ac nad oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau

- Bydd newid hefyd i'r broses o wneud cais er mwyn penderfynu ar geisiadau o dan y meini prawf cymhwystra newydd

Mae'r ddeddfwriaeth eilaidd, sy'n darparu ar y broses o Gadarnhau ac Adolygu Cymhwystra, wedi'i gosod erbyn hyn a gellir dod o hyd iddi yma.

Newidiadau i hawliau ymgeisyddiaeth

- Daw'r newidiadau i hawliau ymgeisyddiaeth dinasyddion yr UE i rym o 7 Mai 2024. Bydd trefniadau trosiannol yn galluogi dinasyddion yr UE a gaiff eu hethol i swydd cyn y dyddiad hwn i barhau yn eu swydd am y tymor cyfan.
- Ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen i ddinasyddion yr UE sy'n sefyll fel ymgeiswyr fod wedi bod yn breswylwyr cyfreithlon yn y DU cyn 31 Rhagfyr 2020 (h.y. bod wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu i aros yn y DU, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arnynt) neu fod yn ddinesydd o wlad UE4 (Lwcsembwrg, Gwlad Pwyl, Portiwgal a Sbaen) er mwyn bod yn gymwys i sefyll fel ymgeisydd.
- Bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn ystyried y newidiadau hyn yn eich hyfforddiant neu yn eich sesiynau brifio i aelodau'r tîm er mwyn sicrhau eu bod yn deall y rheolau newydd wrth gefnogi ymgeiswyr ac asiantiaid ac wrth reoli'r broses enwebu.

Dylanwad gormodol ac achosion o ymddygiad bygythiol

Daw'r darpariaethau hyn i rym ym mis Tachwedd 2023 a byddant yn gymwys i etholiadau a gynhelir o fis Mai 2024. Mae'r mesurau yn gymwys i bob math o etholiad yng Nghymru a Lloegr a dim ond i etholiadau Senedd y DU yn yr Alban.

Caiff y drosedd o ddylanwad gormodol ei symleiddio a chaiff y mathau o ymddygiad anghyfreithlon a ddefnyddir i ddylanwadu'n annheg ar bleidlais rhywun eu diffinio. Cyflwynir gorchymyn anghymhwyso newydd, sy'n darparu y caiff unrhyw un sydd wedi'i euogfarnu o drosedd bresennol o natur fygythiol ei anghymhwyso rhag sefyll etholiad, cael ei ethol i swydd etholedig berthnasol na bod yn ddeiliad swydd o'r fath am gyfnod o bum mlynedd.

Mae'r ddeddfwriaeth eilaidd, sy'n darparu ar gyfer y newid i ddylanwad gormodol, wedi'i gosod erbyn hyn a gellir dod o hyd iddi yma.

Enwau Ymgeiswyr a Ddefnyddir yn Gyffredin a Chyfeiriadau

Enwau a ddefnyddir yn gyffredin

Bydd y ddarpariaeth hon yn gymwys ar gyfer pob math o etholiad yn Lloegr, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac etholiadau Senedd y DU yng Nghymru, ac etholiadau Senedd y DU yn yr Alban o fis Mai 2024:

- Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd yn yr enwau y gall ymgeisydd eu rhoi ar ei bapur enwebu. Bydd hyn, er enghraifft, yn caniatáu i rywun sy'n cael ei adnabod gan ei enw canol, ddefnyddio'r enw hwn yn unig ar ei bapur enwebiadau yn hytrach na gorfod defnyddio ei enw cyntaf a'i enw canol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Cyfeiriadau ymgeiswyr

Bydd y ddarpariaeth hon yn gymwys ar gyfer etholiadau Senedd y DU o fis Mai 2024:

- Bydd y mesur hwn yn caniatáu i ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Senedd y DU nad ydynt yn dymuno cynnwys eu cyfeiriad cartref ar y papur pleidleisio i ddefnyddio eu hardal awdurdod lleol fel eu cyfeiriad fel dewis arall yn lle ardal yr etholaeth.

Argraffnodau digidol

Bydd angen i ymgeiswyr gynnwys argraffnodau ar eu deunydd ymgyrchu gwleidyddol digidol. Mae drafft terfynol y canllawiau statudol ar y darpariaethau ynglŷn ag argraffnodau digidol ar gael yma.